**COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL**

**Y CABINET**

**DYDD MERCHER, 16 MEHEFIN 2021**

**Cabinet Members:**

Cynghorwyr:: C.Clement-Williams, D.Jones, E.V.Latham, A.R.Lockyer, P.A.Rees, P.D.Richards, A.Wingrave, L.Jones a/ac M.Harvey

**Swyddogion yn bresennol:**

N.Pearce, C.Griffiths, H.Jenkins, K.Jones, A.Jarrett, R.Bowen, R.Crowhurst, P.Curnow, C.Davies, J.Merrifield a/ac J.Woodman-Ralph

---

1. **PENODI CADEIRYDD**

Cytunwyd i benodi'r Cyng. E V Latham yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Gwnaeth yr Aelodau canlynol ddatganiad o fuddiant ar ddechrau'r cyfarfod mewn perthynas ag Eitem 5 ar yr Agenda - Rhaglen Strategol Gwella Ysgolion – Cynnig i Sefydlu Ysgol Cyfrwng Saesneg 3 – 11 oed i gymryd lle Ysgolion Cynradd yr Alltwen, Godre'r-graig a Llangiwg, y bydd pob un ohonynt yn cau ar 31 Awst 2024.

| | |
|---|---|
| Y Cyng. E V Latham | Gan ei fod yn Gadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Tywyn ac Ysgol Bae Baglan ond mae ganddo oddefeb i siarad a phleidleisio. |
| Y Cyng. C Clement-Williams | Gan ei bod yn llywodraethwr ysgol yn Ysgol Gynradd Baglan ond mae ganddi oddefeb i siarad a phleidleisio. |

| | |
|---|---|
| Y Cyng. D Jones | Gan ei bod yn Gadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Cilffriw ac Ysgol Gymunedol Llangatwg ond mae ganddi oddefeb i siarad a phleidleisio. |
| Y Cyng. A R Lockyer | Gan ei fod yn Gadeirydd Llywodraethwyr yn Ysgol Gynradd y Gnoll ac yn llywodraethwr yn YGG Castell-nedd ond mae ganddo oddefeb i siarad a phleidleisio. |
| Y Cynghorydd P A Rees | Gan ei fod yn Gadeirydd Llywodraethwyr yn Ysgol Gyfun Cefn Saeson ac Ysgol Gynradd Crynallt ond mae ganddo oddefeb i siarad a phleidleisio. |
| Y Cyng. P D Richards | Gan ei fod yn llywodraethwr ysgol yn Ysgolion Cynradd Blaenbaglan a Baglan ond mae ganddo oddefeb i siarad a phleidleisio. |
| Y Cyng. L Jones | Gan ei bod yn llywodraethwr ysgol yn Ysgol Gynradd Melin ac Ysgol Gynradd Tonnau ond mae ganddi oddefeb i siarad a phleidleisio. |
| Y Cyng. M Harvey | Gan ei fod yn Gadeirydd Llywodraethwyr yn Ysgol Gynradd Abbey ond mae ganddo oddefeb i siarad a phleidleisio. |

## 3. **RHAGLEN STRATEGOL GWELLA YSGOLION - CYNNIG I SEFYDLU YSGOL CYFRWNG SAESNEG 3-11 OED I DDISODLI YSGOLION CYNRADD ALLTWEN, GODRE'R-GRAIG A LLANGIWG Y BYDD POB UN OHONYNT YN CAU AR 31 AWST 2024**

Yn dilyn diweddariad llafar a roddwyd yn y cyfarfod a chyda chytundeb y Cadeirydd Craffu, cytunwyd y dylid **gweithredu ar y penderfyniad ar unwaith**.

Ar ôl rhoi sylw dyledus i ymatebion yr ymgynghoriad, yr asesiad effaith integredig, yr asesiadau cydraddoldeb, risg a defnydd cymunedol a'r wybodaeth y cyfeirir ati fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd a'r atodiadau cysylltiedig:

**Penderfyniadau:**

1. Yn unol ag Adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013. Rhoddir cymeradwyaeth i gyhoeddi'r hysbysiad statudol o'r cynnig i sefydlu ysgol cyfrwng Saesneg 3 – 11 oed gyda Chanolfan Cymorth Dysgu, mewn adeiladau newydd i letya disgyblion o ddalgylchoedd presennol Ysgol Gynradd yr Alltwen, Ysgol Gynradd Godre'r-graig ac Ysgol Gynradd Llangiwg, y bydd pob un ohonynt yn cau ar 31 Awst 2024.

2. Y dyddiad gweithredu fydd 1 Medi 2024.

3. Bod yr Hysbysiad o'r cynnig yn cael ei gyhoeddi ar 17 Mehefin 2021, gan ganiatáu 28 niwrnod ar gyfer cyflwyno gwrthwynebiadau, a bod adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Aelodau yn dilyn canlyniad y cyfnod hwn fel y gall Aelodau benderfynu arno'n derfynol.

**Rheswm dros y penderfyniadau:**

Galluogi'r cyngor i gydymffurfio â gofynion cyhoeddi ffurfiol y Côd Trefniadaeth Ysgolion a deddfwriaeth gysylltiedig. Hysbysiad statudol drafft, sydd ynghlwm wrth Atodiad 1 i'r adroddiad a ddosbarthwyd. Bydd rhoi'r cynnig ar waith yn galluogi'r cyngor i hyrwyddo safonau addysgol uchel a chyflawni potensial pob plentyn. Bydd hefyd yn galluogi'r cyngor i gyflawni ei ddyletswydd i sicrhau addysg effeithlon yn ei ardal.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar unwaith fel y cytunwyd gyda'r Cadeirydd Craffu perthnasol (ac felly nid yw'n destun y weithdrefn galw i mewn).

**CADEIRYDD**